**Pwyllgor Adnoddau Dynol**
**(Cyfarfod Eithriadol)**

**27 Medi 2023**

Yn Bresennol
Cynghorydd M James (y Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Cynghorydd Dr SL Hancock, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Cyfarfod Rhithiol: 12.30pm – 1.15pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd D Clements, Mrs J James a Mr GA Jones.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Eithrio'r Cyhoedd**
Ar gynnig y Cynghorydd Dr SL Hancock, a eiliwyd gan Dr R Heath Davies, **penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

**4. Llunio rhestr fer ar gyfer y swydd Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) a Chodi Arian**
Cadarnhaodd y Cadeirydd bod pob Aelod wedi derbyn copïau o'r ceisiadau ar gyfer y swydd uchod, ac amlinellodd y Prif Weithredwr y meini prawf allweddol ar gyfer y swydd. Ar ôl ystyried y ceisiadau, cynigiwyd ac eiliwyd bod dau ymgeisydd yn cael eu cyfweld.

Bu trafodaeth wedyn ar y camau nesaf yn y broses, a chytunwyd y byddai copi drafft o'r cwestiynau yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod.

**Penderfynwyd** gwahodd dau ymgeisydd am gyfweliad ar y 4ydd o Hydref 2023.